Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages
Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi.
Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay.
Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

RHONDDA CYNON TAF

Mr Kevin Davies

Gofynnwch am / Please Ask For Jacqueline Mynott

Fy Nghyf / My Ref:	**Eich Cyf / Your Ref:**	**Dyddiad / Date:**
		29/04/2026

Annwyl Mr Davies,

Parthed: Deiseb – Tyllau yn y Ffordd

Pwnc y ddeiseb: Y lôn gefn rhwng 1-17 Teras Rhondda a rhwng 1-12 Stryd y Tuduriaid, Glynrhedynog.

Diolch am eich deiseb sy'n tynnu sylw at gyflwr y lôn gefn. Rydw i'n gwerthfawrogi'ch amser yn codi'r mater yma a hoffwn i roi sicrwydd i chi fod y Cyngor yn cymryd barn trigolion o ddifrif o ran cyflwr priffyrdd wedi'u mabwysiadu.

Aeth Arolygydd Priffyrdd i'r lôn ym mis Mawrth a nododd nifer o ddiffygion. Mae'r diffygion yma wedi cael eu clustnodi i'w hatgyweirio. Er i'r pryderon gael eu nodi, ni chafodd y lôn ei hasesu'n anniogel nac yn llwybr nad oes modd mynd ar hyd-ddo. Disgwylir y bydd y gwaith a nodwyd yn mynd i'r afael â'r prif broblemau ond os bydd unrhyw bryderon pellach, cysylltwch â ni eto.

Mae'n werth nodi bod lonydd cefn yn cael eu harolygu ar sail adweithiol, yn hytrach nag yn rhan o raglen arferol. Os bydd y cyflwr yn dirywio eto, bydd modd rhoi gwybod am hyn i'r Cyngor gan ddefnyddio'r system ar-lein (Ceudyllau – Rhoi gwybod am broblem | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf), a bydd arolygiad yn cael ei drefnu. Bydd unrhyw ddiffygion sy'n bodloni ein meini prawf ymyrryd yn cael eu blaenoriaethu i'w hatgyweirio.

Mae modd i'r gadarnhau y bydd y lôn yn parhau i gael ei hystyried i dderbyn buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol. Er bod y Cyngor wedi gwneud buddsoddiad sylweddol yn y priffyrdd dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n gyfrifol am rwydwaith mawr ac mae rhaid blaenoriaethu adnoddau. Yn ymarferol, mae hyn yn gyffredinol yn golygu canolbwyntio ar ffyrdd, llwybrau troed a phrif lwybrau mynediad lle mae'r effaith fwyaf ar drigolion a'r rhwydwaith ehangach.

Gwasanaethau'r Amgylchedd / Environmental Services
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Rhondda Cynon Taf County Borough Council
Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf, Pontypridd, CF37 4TH
Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Taff Street, Pontypridd, CF37 4TH
Ffôn / Tel: 01443 425001

DIOGELU DATA PROTECTION
MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection
hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

Yn gywir,

Jacqueline Mynott
Pennaeth Rheoli Asedau Isadeiledd
Head of Infrastructure Asset Management